# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr T. Lloyd Hughes, Eric Jones. R. Dylan Jones, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, P. Rogers, J. Penri Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro (Eitem 3)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid (Eitem 3)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolydd Polisi a Strategaeth (CW)<br>Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol<br>Rheolydd Sgriwtini<br>Swyddog Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorydd Fflur Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd T. H. Jones (Aelod Portffolio Cyllid)<br>Y Cynghorydd E. G. Davies (Aelod Portffolio Addysg) |
| **SYLWEBYDD** | Nigel Griffiths (Swyddfa Archwilio Cymru) |



**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod na Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem a drafodwyd.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2010.

**Materion yn Codi**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y rhoddir diweddariad i'r cyfarfod nesaf ar yr isod:-

- Nodi a Rheoli Risg
- Yr ymweliad arfaethedig gan gynrychiolydd o Gyngor Castell-Nedd Port Talbot.
- Mater Parcio am Ddim am ddwy awr ar ddydd Sul i ganiatáu i addolwyr fynychu gwasanaethau heb orfod poeni am dalu am barcio.

**3 WYNEBU EIN HERIAU ARIANNOL - YMGYNGHORI GYDA'R CYHOEDD AR GYNIGION CYLLIDEB 2011/12**

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Portffolio Cyllid i annerch y cyfarfod. Gwnaeth y Cynghorydd T. H. Jones y sylwadau byr canlynol:-

- Roedd LlCC wedi derbyn gostyngiad o 1.3% yn ei chyllid o Lywodraeth Ganolog.
- Roedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi derbyn gostyngiad o 1.7% gan LlCC.
- Roedd y gostyngiad yn trosi i £1.6m llai o gyllid ar gyfer 2011/12.
- Mae'r cyllido yn arwain at ddiffyg o £3.7m i'n galluogi i gael cyllideb sefydlog.
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a fabwysiadwyd yn 2010/11 yn caniatáu am gynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor. Eleni, bydd incwm o Dreth y Cyngor yn cynyddu gan 5% sy'n cael ei dorri i

lawr fel 0.7 o gyllid ychwanegol oherwydd y ffaith bod ychwaneg o dai ar yr Ynys a 4.3% o gynnydd yn Nhreth y Cyngor.

- Bydd Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D oddeutu £860 y flwyddyn (heb gynnwys praesept Cynghorau Tref/Cymuned a phraesept Heddlu Gogledd Cymru).
- Mae'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn ceisio dod o hyd i arbedion o £10m dros y 3 blynedd nesaf. Yn achos 2011/12, daethpwyd o hyd i oddeutu £3.2m.
- Staffio yw prif ffynhonnell gwariant a rhaid gwneud penderfyniadau anodd a allai arwain at golli oddeutu 50 o swyddi.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn siomedig gyda'r wybodaeth a ddosbarthwyd fel rhan o Raglen y cyfarfod. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod yr ymarfer o'r gwaelod i fyny bellach wedi ei gynnal a bod canlyniad yr ymarfer hwnnw wedi profi bod y ffigyrau cychwynnol a gylchredwyd yn gywir. Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro annerch y cyfarfod ynglyn â'r Adolygiad Rheolaeth Sefydliadol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro y daethpwyd i gytundeb gyda'r Undebau Llafur yng Nghaerdydd a bydd CLlLC yn edrych ar gamau y gellid eu cymryd cyn ystyried diswyddiadau fel opsiwn. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau ar gyfer gweithio hyblyg. Yn ychwanegol at hyn, trafodwyd newidiadau arfaethedig i delerau ac amodau teithio. Ymhelaethodd ar ymchwiliadau i gynigion a allai arbed arian megis lleihau'r nifer o reolwyr a chostau gweinyddol heb gael effaith ar wasanaethau rheng flaen, dileu swyddi gweigion, diswyddiadau gwirfoddol ac ymddeoliad. Cadarnhawyd y bu'n rhaid cael cyngor AD arbenigol oherwydd bod y Cyngor yn wynebu problemau nas gwelwyd eu maint o'r blaen.

Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau, dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro, bod

- Y Cyngor yn cyflogi Ymgynghorwyr dim ond pan mae angen cyngor arbenigol.
- Nid yw'r broses Arfarnu Swyddi yn rhoi sylw i'r gwahaniaeth tâl rhwng Cynghorau.
- Mae oddeutu 50 o swyddi mewn perygl ar hyn o bryd yn amryfal adrannau'r Cyngor (er na chafwyd unrhyw fanylion penodol)
- Nid oes modd bod yn fanwl gywir ynglyn â nifer y swyddi a gollir.
- Yn unol â Rheolau Llywodraeth Leol, ni fedr pobl sy'n derbyn pensiwn ac sy'n dychwelyd i'r gwaith ennill mwy nag yr oeddynt eisoes. Mewn Cynghorau llai, mae rheolau pensiwn yn annog ac yn hwyluso pobl i ymddeol a dychwelyd i weithio ar sail rhan amser ar yr amod y cyflwynwyd achosion busnes llwyddiannus. Ymhellach, atgoffodd yr aelodau bod rhaid cymryd gwahaniaethu ar sail oed i ystyriaeth.
- Mae staff wedi bod yn gysylltiedig ag ymarferion "Cadw Ty Da" ac roedd yn annog diwylliant o "gwariwch yr arian fel petaech yn gwario eich arian chi eich hun".

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch :-

- Nifer y staff a gyflogir gan TLlU y Cyngor gan gadw mewn cof bod nifer y tai Cyngor ym mherchenogaeth y Cyngor wedi haneru dros y blynyddoedd - **y Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r Cynghorydd G. O. Parry MBE.**
- Faint sydd yn y gyllideb mewn perthynas â "Buddsoddi i Arbed" - **gofynnodd y Cadeirydd am gael gweld y cynigion dan "Cadw Ty Da".**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid nad oedd terfyn i'r arian sydd ar gael dan "Buddsoddi i Arbed" ond bod yr adroddiad Rheoli Trysorlys blynyddol wedi pennu band uchaf ar gyfer benthyca a oedd ar hyn o bryd yn £1m. Yn erbyn hynny, mae nifer y cynigion yn isel. Dywedodd y Cadeirydd bod ffigyrau'r gyllideb wedi cael eu cyflwyno o'r top i lawr yn hytrach nag o'r gwaelod i fyny am nad oedd yn dymuno gweld oedi gyda'r broses. Dim ond ddoe (02/02/11) y cafwyd ffigyrau'r setliad terfynol gan LlCC. Roedd o'n hyderus bod y ffigwr yr un fath mwy na lai â'r ffigwr a gyflwynwyd eisoes ac a fyddai'n cael i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn ymis. Byddai'r Gyllideb sefydlog yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w hystyried ac i'w newid yn nes ymlaen. Byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cyflwyno ei gyllideb arfaethedig derfynol i'r Cyngor Sir i'w mabwysiadu. Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch oedi gyda'r broses o gyhoeddi'r cynigion cyllidebol, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol at yr oedi gyda derbyn ffigyrau'r setliad, fodd bynnag, ni fedrai feio LlCC am yr oedi oherwydd bu'r Llywodraeth Ganolog yn hwyr yn cyflwyno'r ffigyrau i LlCC. Er bod y

dasg yn fwy o lawer eleni, ychwanegodd ei fod yn hyderus y byddai modd cwblhau'r broses cyn y cyfarfod o'r Cyngor Sir.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynglyn â'r balansau a defnyddio arian o'r cronfeydd wrth gefn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y byddai adroddiadau monitro'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Dywedodd y nodwyd tanwariant posibl a bod y tanwariant hwnnw wedi cael ei ryddhau gan y Pwyllgor Gwaith i bwrpas cynnal a chadw priffyrdd. Gwnaed penderfyniad y gellid cario'r tanwariant o 1% drosodd yn y gwasanaeth a dychwelyd unrhyw arian dros ben i'r cronfeydd canolog. Pwysleisiodd bod gan y Cyngor yr hawl i wario'r arian o'r cronfeydd wrth gefn, ond y dylid rhoddi sylw gofalus i ddoethineb gwneud hynny.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) adroddiad yn amlinellu materion a godwyd yn y gyfres o saith cyfarfod ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd ledled yr Ynys. Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad.

Cafodd yr Aelodau wybodaeth ar ganran y Dreth Gyngor a gesglir.

**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau uchod a threfnu cyfarfod pellach o'r Pwyllgor hwn i sgriwtineiddio'r cynigion cyllidebol.**

## 4 CWYNION

Derbyniwyd a nodwyd er gwybodaeth - adroddiadau mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor o safbwynt cwynion. Cadarnhaodd y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol ei fod o'n hyderus fod yr holl gwynion yn cael eu cyfnodi a'u bod yn cael sylw. Cyfeiriodd at y canllawiau newydd arfaethedig a'r gweithdrefnau ar gyfer delio gyda chwynion blinderus. Er bod yr Aelodau yn cydnabod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i gyrraedd y targedau ymateb, cytunwyd y dylid codi'r targed ar gyfer cwynion Cam 1 er mwyn sicrhau y cynhelir safon uchel.

**PENDERFYNWYD y dylid codi'r targed ar gyfer delio gyda chwynion Cam 1 o fewn y cyfyngiadau amser cyfredol i 90%.**

## 5 CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd- Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor Sir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am y cyfnod 2010/11 ynghyd â sylwadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar yr adroddiad ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny. Cyfeiriodd y Rheolydd Polisi a Strategaeth at y pum Dangosydd Perfformiad. Cadarnhaodd mai prif bryder Bwrdd yr Iaith oedd y ffaith nad oedd y Strategaeth Sgiliau Iaith wedi'i chwblhau, fodd bynnag, rhoddwyd sylw i'r mater hwn ac anfonwyd y fersiwn ddrafft i'r Bwrdd ac yn fewnol i bwrpas ymgynghori. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd bod bwriad i ailsefydlu Fforwm Gogledd Cymru a bod y cylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm wrthi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

Y prif faterion y mae angen canolbwyntio arnynt yw adolygu Strategaeth Sgiliau Iaith a monitro'r Rhaglen Weithredu. Yn ychwanegol at hyn, roedd bwriad i'r aelodau fod yn rhan o'r gwaith o fonitro'r Cynllun Iaith a sgriwtineiddio gwaith y Grwp Tasg Iaith.

**PENDERFYNWYD nodi'r materion sydd angen sylw fel y cawsant eu hamlinellu uchod a diolch i'r Swyddog am yr adroddiad a chymeradwyo ei gynnwys.**

## 6 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL AR GYFER Y DYFODOL

Adolygwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol a chytunwyd ar eitemau ar gyfer eu cynnwys yn y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhelir ar 17 Mawrth 2011.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**